**Dadansoddwch yn feirniadol ddatblygiad damcaniaethol ac ymarferol y maes polisi a chynllunio iaith, gan gyferio at gyd-destun mwy nac un gymuned ieithyddol.**

Yn ystod y traethawd hwn, trafodir y maes *Cynllunio a Pholisi Iaith* yng nghyd-destun dwy iaith frodorol sef y Gymraeg a Basgeg.

> Article 13 of the United Nations Declaration on the Rights of Indigenous Peoples states that indigenous peoples have the right to revitalize, use, develop and transmit to future generations their languages, oral traditions, writing systems and literatures.
>
> UN (dyddiad anhysbys a)

Yn ystod y traethawd hwn, ymhelaethir ar hanesion y ddwy iaith dan sylw a sut y mae asiantaethau yn adfywio, defnyddio a throsglwyddo iaith i'w siaradwyr fel y noda'r dyfyniad uchod. Yna, strwythurir y traethawd yn ôl yr agweddau cynllunio a meithrin iaith a noda Haarman (1990) o fewn ei fodel 'The ideal typology of language cultivation and language planning' (yn Kaplan a Baldauf, 1997). Canolbwyntia'r traethawd ar sut y mae asiantaethau yn hyrwyddo'r ieithoedd dan sylw trwy'r system addysg gan gynnwys y Macro, sef y Llywodraeth; y Meso, sef yr Awdurdodau Lleol; a'r Micro, sef yr ysgolion, athrawon ac unigolion y gymuned (Kaplan, 1983 yn Kaplan a Baldauf, 1997; Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024).




Euskal Kazeta, dyddiad anhysbys

Mae daearyddiaeth tiriogaethau'r ddwy iaith yn wahanol. Er mae yna siaradwyr Cymraeg ledled y byd, mae'r mwyafrif llethol ohonynt yng Nghymru. Serch hynny, mae nifer o siaradwyr yr iaith Fasgeg yng Ngwlad y Basg, sef ardal ddiwylliannol sy'n gorchuddio tua saith rhanbarth yng ngogledd Sbaen a de-orllewin Ffrainc (Euskal Kazeta, dyddiad anhysbys). Gellid ystyried y ddwy iaith yn ieithoedd brodorol oherwydd, wrth ystyried diffiniad y Cenhedloedd Unedig (CU), defnyddir y term brodorol i ddisgrifio pobl sy'n cyflawni meini prawf penodol megis meddu ar iaith a diwylliant arbennig (UN, dyddiad anhysbys b). Er nid y Gymraeg yw'r iaith Geltaidd gyda'r nifer fwyaf o siaradwyr, honna Atlas Ieithoedd Brodorol UNESCO (2010) mai'r Gymraeg ydy'r iaith Geltaidd gyda'r dorf gryfaf o siaradwyr. Yn ogystal, trafodir yn ystod y traethawd bod ganddi dipyn o gefnogaeth sefydliadol (UNESCO, 2010). Wrth ymchwilio, daeth yn amlwg fod pethau cyffredin rhwng hanesion y ddwy iaith, gan gynnwys y ffaith bod y ddwy *dan fygythiad* yn ôl UNESCO (2010). Yn ogystal, er mae mwy o siaradwyr gyda'r iaith Fasgeg, mae defnydd y ddwy yn debyg (Gartziarena, 2024 a).

| GIDS LEVEL | DESCRIPTION |
|---|---|
| 1 | The language is used in education, work, mass media, government at the nationwide level |
| 2 | The language is used for local and regional mass media and governmental services |
| 3 | The language is used for local and regional work by both insiders and outsiders |
| 4 | Literacy in the language is transmitted through education |
| 5 | The language is used orally by all generations and is effectively used in written form throughout the community |
| 6 | The language is used orally by all generations and is being learned by children as their first language |
| 7 | The child-bearing generation knows the language well enough to use it with their elders but is not transmitting it to their children |
| 8 | The only remaining speakers of the language are members of the grandparent generation |

Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024

Yn ystod y 1990au, crëwyd modelau i fonitro bywiogrwydd ieithoedd lleiafrifol a rhagfynegi eu dyfodol megis y model *GIDS* gan Fishman (1991 yn Jones a Llwyd, 2024; Cooper, 1989; Kaplan a Baldauf, 1997). Mae'n bosib ystyried fod y ddwy iaith wedi llwyddo i gyrraedd pedwaredd haen y model gan fod systemau addysg cyfrwng y ddwy iaith yn ffynnu o fewn eu tiriogaethau (Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024). Amlinella Fishman (1991) yr uchaf yr haen ar y model, y cryfaf y mae bywiogrwydd yr iaith leiafrifol (Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024). Yn ogystal, gellir defnyddio'i gysyniad *shifft ieithyddol* wrth ddefnyddio'r model (Kaplan a Baldauf, 1997; Jones a Llwyd, 2024). Wrth i siaradwyr yr iaith leiafrifol *shifftio* i ddefnyddio iaith ddominyddol y gymuned, mae'r iaith yn symud i lawr yr haenau, sy'n golygu bod *shifft ieithyddol* ar waith (Fishman, 1991 yn Kaplan a Baldauf, 1997). Serch hynny, mae'n bosib adfywio iaith a symud yn ôl i fyny'r haenau. Gelwir hyn yn gwrthdroi *shifft ieithyddol* (Fishman, 1991 yn Kaplan a Baldauf, 1997). Amlinella'r traethawd sut y mae systemau addysg yn medru hyrwyddo neu wrthdroi *shifft ieithyddol* yn hanesyddol ond hefyd ar gyfer y dyfodol. Cychwynnwyd gydag adran gyntaf model Haarman (1990) sef *C*ynllunio Iaith (yn Kaplan a Baldauf, 1997). Honnwyd bod y ddwy elfen o fewn Cynllunio Iaith, sef Corpws a Statws yn cael y dylanwad mwyaf ar y nifer fwyaf o bobl oherwydd, gan amlaf, y Macro sy'n eu hariannu ac yn eu hyrwyddo (Haarman, 1990 yn Kaplan a Baldauf, 1997). Cychwynnir gyda chynllunio Corpws oherwydd honna awduron mai gyda Haugen ganwyd y maes cynllunio iaith yn y 1950au (Cooper, 1989). Dywed 'By language planning I understand … preparing a normative orthography, grammar and dictionary for the guidance of writers and speakers in a non-homogenous speech community' (Haugen 1959 yn Cooper, 1989: 29). Er gellir barnu bod cynllunio corpws yn gorganolbwyntio ar iaith ysgrifenedig, amlinella UNESCO (2003) bwysigrwydd yr elfennau yma ar ddiogelu ac adfywio ieithoedd lleiafrifol (Bengtson, 2011). Wrth ystyried yr ieithoedd dan sylw, wrth edrych ar *Darddiad Genetig*, sy'n debyg i'r hyn a noda Haugen (1983) i '*Codification*', deellir bod y Gymraeg yn perthyn i gangen Frythoneg yr ieithoedd Celtaidd a siaradwyd ar dir Prydeinig cyn oes y Rhufeiniad (Kaplan a Baldauf, 1997; UNESCO, 2010). Serch hynny, mae gwreiddiau'r iaith yn henach fyth ac yn perthyn i ieithoedd Indo-Ewropeaidd (UNESCO, 2010). Honnwyd o bosib mae Basgeg ydy'r ieithoedd hynaf Ewropeaidd oherwydd mae'n perthyn i iaith Ogledd Cawsaidd (Bengston, 2011). Dywedwyd bod rhai geiriau wedi diogelu eu hystyr dros gyfnod o ryw 9,000,000,000 o flynyddoedd (Bengtson, 2011; Molina, 2014).

Er cyhoeddwyd Beiblau y ddwy iaith yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, ni chyfeiria gynllunio Corpws bob tro at arteffactau hanesyddol, ond hefyd yr argaeledd mewn adnoddau i hyrwyddo'r iaith hyd heddiw ac ar gyfer y dyfodol (British Library, 2017; National Library of Wales, dyddiad anhysbys). Noda Haugen (1983) dair elfen i '*Codification'* sef '*Graphisation*' (creu wyddor), '*Grammatication*' (safoni rheolau iaith a chystrawen) a '*Lexication*' (geirfa'r iaith) (yn Kaplan a Baldauf, 1997). Erbyn hyn, yn sgil datblygiadau technolegol, y mae geiriaduron digidol a '*Google Translate'* ar gael yn y ddwy iaith felly ceir mynediad atyn nhw o bedwar ban y byd (Trask, 2007). Serch hynny, gellir barnu nad yw'r model *GIDS* yn ystyried sefyllfa'r ieithoedd ynghylch datblygiadau technolegol oherwydd oedran y model.

Serch hynny, yn anffodus nid yw systemau cynllunio iaith Llywodraethau wedi bod yn gadarnhaol tuag at y ddwy iaith. Er mwyn ceisio rhagfynegi dyfodol yr ieithoedd, mae'n bwysig deall eu hanes yn ogystal (The Guardian, 2011). Cyfeirir at ardal Wlad y Basg a leolir yn Ffrainc yn Iparralde (Euskal Kazeta, dyddiad anhysbys, Jaurésguiberry, 2018). Er penodwyd yr iaith Ffrengig fel iaith swyddogol y wlad gan y 'Villiers-Cotterêts' yn 1539, ieithoedd brodorol a lleiafrifol siaradwyd ar lawr gwlad tan ddiwedd y deunawfed ganrif gan y bobl (Jaurésguiberry, 2018). Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn niferoedd siaradwyr Basgeg o fewn Iparralde oherwydd gwaharddwyd yr iaith mewn dosbarthiadau ysgol yr ardal gan Soulice yn 1880 (Jaurésguiberry, 2018). Gwelwyd *Y Symbol* ar lawr dosbarthiadau ysgolion, sef gwrthrych megis ffon neu gylch haearn a gariwyd gan blant yn ystod y dydd pan fyddai athro yn eu clywed yn siarad Basgeg (Jaurésguiberry, 2018). Pwrpas y gosb oedd codi cywilydd ar y siaradwr ifanc oherwydd ystyriwyd Basgeg fel iaith yr anllythrennog neu'n iaith wledig, draddodiadol a Ffrengig oedd yn gysylltiedig â moderneiddio (Jaurésguiberry, 2018).

Mae'n bosib llunio cymariaethau rhwng y sefyllfa yn Ffrainc a Phrydain yn ystod yr un cyfnod. Roedd *Y Symbol* yn debyg iawn i'r '*Welsh Not'* a ymddangoswyd mewn ysgolion Cymru tua'r un adeg (Atebol, 2017; Jaurésguiberry, 2018). Hyrwyddwyd y '*Welsh Not'* gan athrawon mewn ysgolion i annog dysgwyr siarad Saesneg yn dilyn canfyddiadau'r *Llyfrau Gleision* sef adroddiad am sefyllfa addysg Gymru a ysgrifennwyd gan dri aelod seneddol o San Steffan (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dyddiad anhysbys a).

> Whether in the country, or among the furnaces, the Welsh element is never found at the top of the social scale …his language keeps him under the hatches…language of old-fashioned agriculture, of theology…of simple rustic life, while all the world about him is English.
>
> Shuttleworth, 1847 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dyddiad anhysbys a:3

Amlinellwyd bod y Gymraeg yn atal plant rhag dyfodol llewyrchus a chafwyd effaith hyd yn oed ar ffordd o fyw'r Cymry (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dyddiad anhysbys a). Yn dilyn eu beirniadaeth ar rianta mamau Cymreig, cyhoeddwyd cylchgrawn *Y Gymraes* gan Evan Jones yn 1850 fel adnodd i gynghori gwragedd ynglŷn â sut i gadw tŷ a'u hymddygiad yn gyffredinol (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dyddiad anhysbys b; Atebol, 2017). Serch hynny, ystyrir bod digwyddiadau byd-eang yn medru effeithio ar siaradwyr ieithoedd yn ogystal. Amlyga hanes torcalonnus Ellis Humphrey-Evans nid ond colled enfawr rhyfel ar fywydau ond y golled enfawr i ieithoedd megis yr ugain mil o siaradwyr Cymraeg a gollwyd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (BBC Wales News, 2014).

Cafodd ryfela effaith enfawr ar boblogaeth ac ieithoedd lleiafrifol Sbaen, gan gynnwys Basgeg. Er gwaetha'r statud arbennig a oedd yn ei lle yng Nghymuned Ymreolaethol Basg, yn dilyn y *coup milwrol* aflwyddiannus 1936, dechreuodd Ryfel Cartref Sbaen (Queen's University, dyddiad anhysbys; Garrido, 2024). Wedi'r rhyfel, daeth Franco i bŵer yn 1939 tan ei farwolaeth yn 1975 (Molina, 2014). Yn ogystal â cholli'i statws, gwaharddwyd ieithoedd lleiafrifol, gan gynnwys yr iaith Fasgeg mewn ysgolion (Molina, 2014). Er nid oes data i ddatgan yn union y nifer o siaradwyr Basgeg a gollwyd eu bywydau yn ystod ei gyfnod, bu farw bron dwy fil o bobl fel rhan o drychineb Gernika heb sôn am drychinebau'r ardaloedd eraill sy'n cynnwys siaradwyr yr iaith megis yn Rioja a Navarre (Molina, 2014; Lopez-Terra, 2017; Garrido, 2024). Serch hynny, er awgrymwyd fod yr iaith wedi'i gwahardd mewn mannau cyhoeddus, dadleua Molina (2014) fod hyn wedi'i gor-gyffredinoli. Nodwyd bod yr iaith wedi parhau fel rhan o fywyd bob dydd yng nghefn gwlad megis yn rhan o ddathliadau crefyddol (Molina, 2014).

Erbyn y 1960au, esblygodd ddiffiniadau'r term C*ynllunio Iaith* i gynnwys elfennau cymdeithaseg wrth i Kloss (1969) ddefnyddio'r term *statws*, sef ail elfen y model (Cooper, 1989). Fel arfer, mae'r manteision cysylltiedig â statws swyddogol yn galluogi Llywodraethau gyhoeddi dogfennau a pholisïau yn yr ieithoedd swyddogol (Kaplan a Baldauf, 1997).Wedi diwedd cyfnod Franco yn Sbaen, crëwyd dau ar bymtheg cymuned ymreolaethol yn y wlad yn 1978 gan gynnwys 'Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg' (Queen's University, dyddiad anhysbys). Mae gan y cymunedau yma

awdurdod deddfwriaethol a phwerau cyfreithiol gan gynnwys dros faterion addysg (Queen's University, dyddiad anhysbys). Fel rhan o drydedd adran y '*Spanish Constitution'*, gwnaed Sbaeneg fel iaith swyddogol y wlad ond gwnaed ail-iaith swyddogol gan chwe chymuned gan gynnwys yr iaith Fasgeg yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg (Queen's University, dyddiad anhysbys). Yn 1983, sefydlwyd yr archddyfarniad Basgeg wnaeth adfywio'r iaith eto o fewn sectorau megis cyrff cyhoeddus (Queen's University, dyddiad anhysbys).

Er nad oedd statws cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg tan *Fesur y Gymraeg* (2011), roedd addysg gyfrwng Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif (Atebol, 2017). Meddai Roberts 'Welsh is an official language in this country. That does not have to be stated in law' (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1993:2). Serch hynny, barnwyd mai, ar adegau, tacteg wleidyddol ydy gwobrwyo statws swyddogol ar iaith yn hytrach na chynnig gwelliannau i'r bobl ar lawr gwlad (Kaplan a Baldauf, 1997). Er mae'n bosib nodi statws swyddogol i amryw ieithoedd mewn polisi cenedlaethol, amlyga'r sefyllfa yn Ne Affrica yr angen iddynt dreiddio trwy bolisïau meysydd eraill megis polisïau addysg i'r bobl fuddio ohono (Rutabana, 2017).

Er gwaetha'r statws swyddogol yng Nghymru, parhau i ostwng y mae'r nifer o siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2022 b). Yng Nghymru, ers 1801 mae'r boblogaeth wedi cynyddu o dua 600,000 i 3,100,000 erbyn 2021 (ONS, 2022). Er fe wnaeth y boblogaeth cynyddu 1.4% rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021, mae'r boblogaeth yn heneiddio ar y cyfan sy'n golygu bod mwy o farwolaethau yng Nghymru na genedigaethau; dywed fod siaradwr Cymraeg yn marw pob tri chwarter awr (ONS, 2022; Siôn, 2024).
Canfuwyd mai'r rheswm am y cynnydd ydy mudo (Llywodraeth Cymru, 2022 a). Gofalir wrth drin y data oherwydd cynhaliwyd y Cyfrifiad pan oedd y byd dal yng nghysgod y pandemig COVID-19 sydd o bosib wedi effeithio ar ymatebion y cyfranogwyr am amryw resymau (Siôn, 2024).



ONS, 2022

Mae poblogaeth Gwlad y Basg yn llai na Chymru gyda phoblogaeth o 2,193,199 (Eustat, 2021). Serch hynny, y mae'r patrymau demograffeg yn debyg (Eustat, 2022). Mae'r nifer o enedigaethau wedi gostwng a'r nifer o

bobl dros 65 oed wedi cynyddu (Eustat, 2022). Serch hynny, ers dechrau'r ganrif, er nid yn wir yn ystod y pandemig, ar y cyfan y tueddiad ydy bod y boblogaeth yn cynyddu oherwydd mudo (Eustat, 2022).

Does dim dwywaith ynghylch pwysigrwydd plant a phobl yn eu harddegau ar ddyfodol ieithoedd brodorol oherwydd nhw ydy'r genhedlaeth nesaf o rieni (Crystal, 2000). Canfu'r Cyfrifiad fod 538,300 o siaradwyr Cymraeg gyda'r ystadegau'n addawol gan fod siaradwyr ym mhob cenhedlaeth (Llywodraeth Cymru, 2022 c; ONS, 2022; Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024). Ymhlith yr ifanc y mae'r canran uchaf gyda 34.3% o blant 5-15 oed yn medru siarad yr iaith (Llywodraeth Cymru, 2022 c; ONS, 2022). Serch hynny, mae'r canran wedi gostwng ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011 pan oedd 40.3% ohonynt yn medru'r iaith (Llywodraeth Cymru, 2022 c; ONS, 2022). Serch hynny, amlinella'r diagram uchod er bod mwy o blant rhwng 5 a 9 oed, mae'r niferoedd o blant ifancaf y gymdeithas wedi gostwng felly o bosib, parhau bydd y patrwm ar gyfer y genhedlaeth gan fod llai ohonynt o ran demograffeg (ONS, 2022).

Wrth ystyried y Gymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg yn Sbaen, mae 936,812 o siaradwyr (Gartziarena, 2024 b). Mae defnydd y siaradwyr hyd 14 mlwydd oed yn cynyddu ar y cyfan oherwydd parhau i wella mae'r systemau a pholisïau trosglwyddo'r iaith (Gartziarena, 2024 b). Amlinellwyd mai ond un neu ddau allan o 10 siaradwyr uniaith Sbaeneg sy'n parhau yn yr ardal sy'n awgrymu fod gweithgareddau i adfywio'r iaith yn llwyddo (Gartziarena, 2024 b). Fe wnaeth defnydd y bobl ifanc (rhwng 15 - 24 oed) gynyddu'n gyflym yn y 1990au ac er arafodd rhyw faint ar ddechrau'r ganrif, mae'r tueddiad ar gyfer siaradwyr rhwng 15 a 64 wedi dechrau cynyddu unwaith eto (Gartziarena, 2024 b). Serch hynny, mae defnydd rheiny dros 65 oed wedi gostwng yn sylweddol ers tro'r ganrif (Gartziarena, 2024 b).

Mae'r darlun yn wahanol iawn yn Navarre (Gartziarena, 2024 b). O fewn yr ardal, y mae'r iaith ond â statws swyddogol yn y '*breathing space*', sef yr ardal ogleddol lle mae'r nifer fwyaf o siaradwyr Basgeg (Gartziarena, 2024 b). Mae gwahaniaethau mawr rhwng amlygiad a pholisïau ac o ganlyniad gallu a llwyddiant trosglwyddo'r iaith mewn ysgolion (Gartziarena, 2024 b). Atseinia'r gwahaniaethau yma o bosib yn y ffaith mai ond 1 o bob 10 sy'n teimlo'n negyddol tuag at weithgarwch adfywio'r iaith yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, tra bod 4 o bob 10 yn teimlo'n negyddol tuag at y gweithgarwch yn Navarre (Gartziarena, 2024 b).

Yng Nghymru, cyfeirir at yr ardaloedd hanesyddol gyda chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg fel y cadarnleoedd. Er yn y gorffennol, ystyriwyd y wlad wedi rhannu'n ddau gyda'r dorf gryfaf o siaradwyr yn y gogledd a chanran llai o siaradwyr yn y de, mae'n debycach bod y canran uchaf yng

ngorllewin y wlad a chanran llai yn y dwyrain o bosib (Llywodraeth Cymru, 2022 b).Ystyrir y cadarnleoedd fel Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn (ARFOR, dyddiad anhysbys). Yng nghyd-destun y siroedd yma, mae yna ostyngiadau yn niferoedd y siaradwyr ym mhob sir gyda Sir Gaerfyrddin yn dioddef y gostyngiad mwyaf sylweddol yn y wlad (Llywodraeth Cymru, 2022 b).




Llywodraeth Cymru, 2022 b

I'r gwrthwyneb, awgryma ddata'r Arolwg Blynyddol y Bobl (ABB) bod y nifer o siaradwyr Cymraeg llawer uwch na'r hyn a noda'r Cyfrifiad (Llywodraeth Cymru, 2024 a). Er mae'r ddau arolwg yn gofyn i'r bobl hunanasesu eu galluoedd Cymraeg, cwblhawyd y Cyfrifiad gan gyfranogwyr ar ffurflen a ddanfonwyd i'r cartref (Siôn, 2024). Mae'r ABB a Chyfrifiad Gwlad y Basg yn casglu gwybodaeth naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn (Siôn, 2024; Gartziarena, 2024 a). Awgrymwyd o bosib, fod ymatebion cyfranogwyr yn fwy ffafriol wrth gasglu data yn y modd yma i gymharu â ffurflenni'r Cyfrifiad (Siôn, 2024).




ABB yn Llywodraeth Cymru, 2024 a

Hyd hyn, wrth ystyried model Haarman (1990), canolbwyntiwyd ar weithgarwch y Macro sy'n gyfrifol am elfennau Cynllunio Iaith (yn Kaplan a Baldauf, 1997). Nesaf, ystyrir yr elfennau sy'n gyfrifol am Feithrin Iaith, sy'n cynnwys y cyfleoedd i gaffael iaith (Haarman, 1990 yn Kaplan a Baldauf, 1997). Wrth ystyried model *GIDS*, cyflawna'r Gymraeg a Basgeg bedwaredd haen y model (Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024). Gellir ystyried fod sefydliadau'r CU yn eistedd mewn system ei hun o amgylch y Macro gan fod Llywodraethau'n atebol iddynt megis i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at y Nodau Cynaliadwyedd (Kaplan, 1983 yn Kaplan a Baldauf, 1997; UN,

dyddiad anhysbys c). Er meddai Mourão 'We cannot fulfil the promises of the 2030 Agenda to promote quality education…drive for sustainable development without supporting the use of local languages', does dim sôn am iaith yn arbennig o fewn amcanion y Nodau (UNESCO, 2021; 2023).

Serch hynny, mae'n bosib ystyried bod y Gymraeg wedi cyflawni elfennau'r ail reng y model *GIDS* gan fod nifer o bolisïau'n amlinellu ffyrdd o weithio tuag at uchelgais y Llywodraeth sef meddu ar filiwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Cyfeiria Thema 1 Cymraeg 2050 at gynyddu nifer y siaradwyr felly canolbwyntir ar drosglwyddo'r iaith o fewn y Micro sef yn y cartref a thrwy addysg (Llywodraeth Cymru, 2017; UK Parliament, 2024). Gwelir y Thema'n ymddangos fel rhan o waith ymchwil a pholisïau y Cwricwlwm i Gymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2015; Donaldson, 2015).

Canolbwyntir ar blant yn eu harddegau ac ysgolion uwchradd am weddill y traethawd oherwydd amlyga Crystal (2000) eu harwyddocâd ar ddyfodol ieithoedd oherwydd nhw ydy'r genhedlaeth nesaf o rieni. Ceisir cynyddu'r nifer o blant sy'n derbyn addysg gyfrwng Gymraeg gan y Llywodraeth i 30% erbyn 2031 a 40% erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Erbyn 2050, gobeithir bydd o leiaf 70% o ddysgwyr yn gadael ysgol yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn debyg, yng Ngwlad y Basg, amlinella'r Agenda Euskadi y ffordd y mae'r ardal yn gweithio tuag at y Nodau Gynaliadwyedd (Eusko Juarlaritza Gobierno Vasco, dyddiad anhysbys) O fewn yr Agenda gwelir, o fewn Nod 4 a gyfeiria at addysg, yr uchelgais sef cyrraedd 75% o'r boblogaeth dan 25 oed yn siaradwyr yr iaith (Eusko Juarlaritza Gobierno Vasco, dyddiad anhysbys).

O ran dylanwad y Meso, sef yr awdurdodau lleol yn yr achos yma, cytuna Gartziarena (2024 b) a Williams y dull mwyaf effeithiol i drosglwyddo iaith mewn ysgolion ydy trochi (yn Llywodraeth Cymru, 2021 a; 2021 b) Yng Nghymru, penodwyd Categori i ysgolion yn ôl cyfrwng eu haddysg sef Categori 1 ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg gyda Chymraeg yn cael ei haddysgu fel pwnc; Categori 2 sef ysgolion a leolwyd ar raddfa o ddwyieithrwydd; neu'n Gategori 3 sef addysg gyfrwng Gymraeg gyda Saesneg yn cael ei haddysgu fel pwnc (Llywodraeth Cymru, 2021 a; 2021 b). Yn debyg yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg mae pedwar model sef A, B, D a G (Gartziarena, 2024 a). Mae'r Model D yn debyg i'r hyn rydym yn ystyried fel ysgolion Categori 3 a'r Model A yn debyg i ysgolion Categori 1 (Gartziarena, 2024 a).

Yng Nghymru, erbyn 2026, addysgir y cwricwlwm, sef Cwricwlwm i Gymru, ar ei newydd-wedd i bob plentyn (Llywodraeth Cymru, dyddiad anhysbys). O hyn ymlaen, addysgwyd Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) sy'n cynnwys y pynciau, megis Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a

disgwylir gweld y pedwar diben, sy'n cynnwys y gallu i weithio'n ddwyieithog, ar waith yn drawsgwricwlaidd ym mhob ysgol (Llywodraeth Cymru, dyddiad anhysbys; Donaldson, 2015). Mae'r sefyllfa'n debyg mewn ysgolion yng Ngwlad y Basg. Addysgir y ddwy iaith swyddogol a Saesneg fel iaith dramor (Gartziarena, 2024 b). Er cytuna athrawon ynghylch y ffaith bod plant dwyieithog yn dysgu trydedd iaith yn haws, pryderir ynghylch effaith Saesneg ar Fasgeg oherwydd mae nifer o ddysgwyr yn gweld bod Saesneg yn fwyfwy defnyddiol ar gyfer eu dyfodol oherwydd datblygiadau 'technologization' a globleiddio (Leonet et al., 2024; Gartziarena, 2024 b).

| | Cyfrwng yr Iaith Frodorol | Dwy-ieithog | Cyfrwng yr Iaith Ddominyddol |
|---|---|---|---|
| | Categori | Categori | Categori |
| Cymru<br>Llywodraeth Cymru, 2021 a | 3 | 2 | 1 |
| Gwlad y Basg<br>(Gartziarena, 2024 b) | D | B | A |

Er mwyn diogelu'r Gymraeg mewn ysgolion, darparir disgwyliadau gan y Llywodraeth ar awdurdodau lleol  i greu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 (Llywodraeth Cymru, 2021 b). Cyhoeddir adroddiadau gan awdurdodau lleol i amlinellu'u cynlluniau, targedau a'r prosesau a ddilynwyd i wella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion (Llywodraeth Cymru, 2021 b). Mae yna saith amcan o fewn y CSCA gan gynnwys cynyddu'r nifer o athrawon Cymraeg (fel pwnc) a chyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymraeg, 2021 b).

Defnyddir y gair trosglwyddo i amlinellu pwysigrwydd meddu ar sgiliau a dealltwriaeth o safon i fodelu i ddysgwyr gan y model '*The Knowledge Quartet*' (dyddiad anhysbys). Gwn o brofiad fod y cwrs BA Addysg Gynradd gyda SAC a chynhigir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCyDDS) yn darparu dwy awr o sesiynau Gloywi Iaith Cymraeg yn wythnosol i'r darpar athrawon trwy gydol eu hyfforddiant. Er gwaetha'r pwyslais ar sgiliau Cymraeg athrawon mewn polisïau CSCA amryw siroedd; gofynion Cwricwlwm i Gymru; Cymraeg 2050, canfuwyd bod yr addewid am wyth can athro Cymraeg heb ddigwydd hyd hyn (Llywodraeth Cymru, dyddiad anhysbys; Llywodraeth Cymru, 2017; Llywodraeth Cymru, 2021 b; Williams, 2024).

| Yr uchelgais am y nifer o athrawon Cymraeg a Chyfrwng Cymraeg yng Nghymru | | |
|---|---|---|
| | Y Flwyddyn | |
| | **2031** | **2050** |
| Cymraeg fel Pwnc | 900 | 1200 |
| Cyfrwng Cymraeg | 3200 | 4200 |
| | | Llywodraeth Cymru, 2017 |

Yn debyg, addysgir dau bwnc i ddarpar athrawon yng Ngwlad y Basg yn seiliedig ar fedrau ieithyddol (Language Abilities I and II) (Gartziarena, 2025). Gwelir bod ffocws ar fedrau ieithyddol yr athrawon yn datblygu eu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion socio-ieithyddol ynghylch Basgeg (Gartziarena, 2025). Mae cyrsiau 'IRALE' ar gael iddynt barhau i wella'u medrau wedi graddio fel athrawon cymwysedig (yn Gartziarena, 2025). Yn yr un modd, achredir system asesu medrau Basgeg sef proffiliau ieithyddol gweithwyr y sector cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn defnydd a gwybodaeth ynghylch yr iaith o fewn y gofodau anadlu Basgeg (Euskadi, dyddiad anhysbys b).

Er, nid yn angenrheidiol yng Ngwlad y Basg, i fynd i'r afael â'r nifer fach o athrawon cyfrwng Cymraeg, mae'r cynllun *Iaith Athrawon Yfory* yn cynnig £5,000 i annog darpar athrawon uwchradd i addysgu Cymraeg fel pwnc neu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2023 c; Gartziarena, 2025).

Er mwyn mynd i'r afael a'r seithfed amcan, amlyga gynllun CSCA Sir Gaerfyrddin eu bod yn datblygu perthynas gyda PhCyDDS a fydd yn cynnig cyrsiau sabothol i staff sydd angen ac eisiau datblygu eu medrau Cymraeg i'w trosglwyddo i'r dysgwyr (Cyngor Sir Gâr, dyddiad anhysbys). Serch hynny, yn ôl ymchwil gan y Senedd Cymru (2023), byddai angen i 17,000 athrawon presennol fynychu cyrsiau sabothol er mwyn i'r Llywodraeth gyflawni uchelgais Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017).

Serch hynny, er gwaethaf cefnogaeth y Llywodraeth a'i pholisïau, parhau y mae'r cwestiwn ynghylch pam mae'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn gostwng ymhlith plant a phobl ifanc. Penderfynir cymharu data Caerdydd a Sir Gaerfyrddin oherwydd dyma ddwy Sir sydd wedi gweld cynnydd a gostyngiad yn y canran o'u siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2024 b). Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac i'r gwrthwyneb, yng Nghaerdydd cyfrwng Saesneg ydy'r mwyafrif llethol o ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2024 b).

Serch hynny, bron 70 mlynedd ar ôl brwydro rheini i agor yr ysgol uwchradd gyntaf yng Nghymru, braf yw clywed bod chwant addysg uwchradd Gymraeg yn y Brifddinas gyda rhieni'n ymgyrchu i agor pedwaredd ysgol uwchradd gyfrwng Gymraeg yng Nghaerdydd (Atebol, 2017; Price, 2024).

Er gwaethaf eu hymdrechion a pholisi 'Cryfach Tecach Gwyrddach' y Cyngor i gynyddu'r nifer o blant mewn addysg gyfrwng Gymraeg, canfuwyd nad oedd digon o alw am ysgol uwchradd arall oherwydd y gostyngiad yn y nifer o enedigaethau (Cardiff Council, 2022; Price, 2024).

| | Nifer Ysgolion Cyfrwng Cymraeg | Nifer Ysgolion Dwyieithog | Nifer Ysgolion Cyfrwng Saesneg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 58 | 19 | 29 | 106 |
| Caerdydd | 18 | 3 | 96 | 117 |
| (Ystadegau 2023/2024 yn Llywodraeth Cymru, 2024 b) | | | | |

Cyfeiria ail thema *Cymraeg 2050* tuag at gynyddu defnydd y Gymraeg ymhlith y siaradwyr sydd hefyd yn her a wyneba'r iaith Fasgeg (Cymraeg 2017; Llywodraeth Cymru, 2021 b; Gartziarena, 2024 b). Mae'n bosib bod athrawon, sef asiant y Micro, yn medru dylanwadu'n fawr ar agweddau eu dysgwyr (Kaplan, 1983 yn Kaplan a Baldauf, 1997; Bronfenbrenner yn Guy-Evans, 2024). Nodwyd pwysigrwydd sicrhau fod pob disgybl yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddynt ac o ganlyniad, mae ymgyrch y *Siarter Iaith* ar waith o fewn ein hysgolion i geisio annog mwy o ddefnydd y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021 b; Llywodraeth Cymru, 2023 ch). Gellir barnu'r model *GIDS* yn ogystal oherwydd nid yw'n cynnwys agweddau'r siaradwyr tuag at yr iaith fel modelau eraill (UNESCO, 2003; Fishman, 1990 yn Jones a Llwyd, 2024).

Yn ogystal â throsglwyddo sgiliau a geirfa'r iaith, y mae'n bosib ystyried bod athrawon hefyd yn encodio eu hagweddau a bri tuag at yr iaith i'r dysgwyr wrth ddewis cyd-destunau a llenyddiaeth i'w haddysgu (Grenoble and Whaley, 1998 yn Crystal, 2000; Hall, 1973 yn Jones a Llwyd, 2024; Bronfenbrenner yn Guy-Evans, 2024 ). O fewn y *Cwricwlwm i Gymru*, mae rhyddid gan ysgolion ddewis y cyd-destunau maent yn addysgu i'w dysgwyr ond bod cynefin yr ysgolion yn wraidd i'r holl waith (Llywodraeth Cymru, dyddiad anhysbys). O ganlyniad, gwelir pwysigrwydd ymwybyddiaeth yr athro am ddiwylliant Cymreig yn ogystal ag iaith i dreiddio drwy'r holl MDaPh (The Knowledge Quartet, dyddiad anhysbys; Llywodraeth Cymru, dyddiad anhysbys ). Gwn o brofiad, mewn cwrs i athrawon ynghylch dylunio cwricwlwm ar gyfer ysgolion, fod mwyafrif yr athrawon cyfrwng Saesneg y grŵp yn dibynnu ar ymwybyddiaeth yr athrawon cyfrwng Cymraeg o chwedlau a llyfrau i gyfoethogi gwersi MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau. Yn ddiddorol, fel rhan o gwrs hyfforddi athrawon yng Ngwlad y Basg, y mae cynnwys elfennau diwylliant Basgeg fel rhan o ddarlithoedd ac aseiniadau yn ddibynnol ar y darlithiwr (Gartziarena, 2025).

Yn yr un modd, amlyga'r graffiau isod mai ymhlith yr ysgolion cynradd y mae'r mwyafrif o blant yn derbyn addysg gyfrwng Gymraeg a chyfrwng Saesneg ydy'r mwyafrif o ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2024 b).




Yn ogystal, caiff fudo ddylanwad sylweddol ar boblogaeth y ddwy ardal dan sylw (Eustat, 2021; Llywodraeth Cymru, 2022 b). Yn ogystal â mudo mewnol, amlinella'r ystadegau fod 6.9% o boblogaeth Cymru wedi'i geni tu hwnt i Brydain gyda thua threian ohonynt dan 18 oed, felly yn oedran ysgol (Llywodraeth Cymru, 2022 b). Mae'r un yn wir yng Ngwlad y Basg wrth ystyried bod tua chan iaith yn cael ei siarad gyda phedair mil o siaradwyr rhwng deg o'r ieithoedd (Leonet et al., 2024).

> First generation of immigrants start to pick up the new language outside the home, but generally do not switch until children start to acquire proficiency and commitment to the new language in school or in contact with their peers .
>
